


Rhif y Cais: HHP/2020/278

Ymgeisydd: Mr. Dafydd Yaxley

Bwriad: Cais llawn ar gyfer codi garej dwbl yn

Lleoliad: Pen y Gaer, Llanddaniel



Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (Nia Jones)

Argymhelliad: Caniatáu

Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor

I adrodd er gwybodaeth bod y cais uchod wedi'i gyflwyno ar ran yr ymgeisydd gan ei asiant proffesiynol ond bod y cwestiwn ar y ffurflen safonol yn gofyn a yw'r ymgeisydd yn gyflogai neu'n aelod etholedig o'r Awdurdod neu'n gysylltiedig ag ef wedi'i dicio'n negyddol. Yn dilyn asesu'r cais ar ôl i ymgynghoriadau statudol a cyhoeddusrwydd ddod i ben, cymeradwywyd y cynnig o dan bwerau dirprwyedig ar 19 Ionawr 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan feddianwyr cyfagos a chadarnhaodd y Cyngor Cymuned nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r cais.

Ym mis Mai 2021 tynnwyd sylw'r Awdurdod at y ffaith mai'r ymgeisydd yw priod un o gyflogeion yr Awdurdod a mab yng nghyfraith aelod etholedig. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor,

(vi) ceisiadau gan gynnwys ceisiadau Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon a gyflwynir gan Aelodau sy'n gwasanaethu'r Cyngor neu swyddogion y Cyngor y gellir ystyried eu bod yn ymwneud â phrosesu a / neu

benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. staff a gyflogir yn y Gwasanaeth Cynllunio, Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion eraill sy'n cyfrannu'n rheolaidd at y system gynllunio – e.e. priffyrdd a draenio, cyfreithiol, iechyd yr amgylchedd, swyddogion tai, datblygu economaidd neu eu perthnasau agos (a ddiffinnir fel priod / partneriaid, rhieni, plant, brodyr a chwiorydd)(neu gyfaill agos i gynghorydd sy'n gwasanaethu neu swyddog o'r fath)).

Er nad yw gweithiwr yr Awdurdod yn yr achos hwn yn cael ei enwi fel yr ymgeisydd, ac nad yw ei hun yn ymwneud â phrosesu neu benderfynu ar geisiadau cynllunio, roedd yn fuddiolwr y caniatâd cynllunio a gan ei bod yn ferch i Aelod etholedig, a dylai'r cais fod wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w benderfynu. Ni ddatgelodd y ffurflen gais y berthynas ac nid oedd y swyddogion cynllunio yn ymwybodol o'r berthynas wrth benderfynu ar y cais. Mae'r Dirprwy Swyddog Monitro wedi adolygu'r ffeil ac wedi cadarnhau bod y cais wedi'i benderfynu yn y modd arferol.

Mae'n ychwanegu na ellir rhoi bai wrth ddrws swyddogion cynllunio ac maen't wedi gweithredu'n rhesymol yn y mater. Mae'n ymddangos bod camddealltwriaeth wedi bod ar eiriad paragraff (vi) uchod ond nid yw'r ymgeiswyr wedi cael unrhyw fantais yn y mater hwn ac mae'r cais, ym mhob ffordd arall, wedi'i brosesu yn y ffordd arferol. Mae'n cynghori bod paragraff (vi) yn cael ei aileirio i'w wneud yn gliriach a bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r newid ymhlith aelodau a'r swyddogion y mae'n berthnasol iddynt.